



Asiantaeth  
Safonau  
Bwyd

food.gov.uk

Food  
Standards  
Agency

.....

# Adroddiad i Senedd Cymru

.....

**Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd:**

**Adolygu Gweithrediad y System Apelio  
yng Nghymru**

**Chwefror 2022**

# Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol	3
2. Cyflwyniad	5
3. Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	6
4. Effaith COVID-19 ar y Cynllun ac Adferiad Awdurdodau Lleol	7
5. Adolygu Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru	11
6. Cysondeb	13
7. Crynodeb o'r Camau Gweithredu o'r Argymhellion	15
8. Casgliadau	17
9. Argymhellion	18

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1. Mae Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn rhoi dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i adolygu gweithrediad system apelio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (y Cynllun) yn flynyddol. Yr adroddiad hwn yw'r wythfed adolygiad blynyddol o weithrediad y system apelio ac fe'i paratowyd i fodloni gofynion y Ddeddf. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2020 a 27 Tachwedd 2021.

1.2. Busnesau bwyd â sgôr o '5' (Da lawn) yw 70 y cant o'r holl fusnesau bwyd â sgôr yng Nghymru. Mae 97 y cant o'r holl fusnesau bwyd â sgôr yng Nghymru yn fusnesau bwyd sy'n cydymffurfio, sef y rhai â sgôr o '3' (Boddhaol ar y cyfan), '4' (Da) neu '5' (Da lawn).

1.3. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae pandemig COVID-19 wedi parhau i gael effaith ar ddarpariaeth rhaglenni arolygu arferol awdurdodau lleol a gweithrediad y Cynllun. Mae'r ASB wedi llunio Cynllun Adfer ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 2023/24. Mae'r Cynllun Adfer yn ailgychwyn y gwaith o gynnal arolygiadau fel mater o drefn ar gyfer sefydliadau bwyd newydd a sefydliadau bwyd risg uchel a/neu sefydliadau bwyd nad ydynt yn cydymffurfio yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) (y Cod). Ar yr un pryd, mae'n cynnig hyblygrwydd ar gyfer sefydliadau risg is. Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar weithrediad arferol y cynllun, yn benodol:

- llai o arolygiadau sydd wedi golygu bod sgoriau busnesau yn aros ar waith yn hirach a bod y dyddiadau arolygu yn hŷn;
- cynnydd yn nifer y busnesau y cyhoeddwyd eu bod yn 'aros am arolygiad' wrth i nifer y busnesau newydd a oedd yn cofrestru gynyddu.

1.4. Cynhaliwyd llai o arolygiadau yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig COVID-19 ac mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y sgoriau a gyhoeddwyd ac, yn ei dro, nifer yr apeliadau a ddaeth i law mewn perthynas â'r sgoriau a ddyfarnwyd.

1.5. Yn ôl yr adolygiad:

- cafwyd 26 o apeliadau
- arweiniodd 30 y cant (8) at newid sgoriau
- penderfynwyd ar 96% (25) o fewn y cyfnod gofynnol o 21 diwrnod

1.6. Yn ystod cyfnod heriol i awdurdodau lleol, roedd y ffaith bod 178 o swyddogion o bob rhan o Gymru wedi cymryd rhan mewn gweithdai cysondeb a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2021 yn dangos y gwerth parhaus a roddir ar y cymorth a ddarperir ar gyfer gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb wrth roi sgoriau. Mae hyn yn sicrhau cadernid a gwytnwch y Cynllun.

1.7. Mae'r ASB wedi gwneud [pedwar argymhelliad](#) sy'n berthnasol i weithrediad parhaus y system apeliadau yng Nghymru.

## 2. Cyflwyniad

- 2.1. Mae Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn rhoi dyletswydd ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i adolygu gweithrediad system apelio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (y Cynllun) yn flynyddol. Ers mis Chwefror 2015, mae adroddiadau wedi'u gosod gerbron Senedd Cymru ac anfonwyd copi at Weinidogion Cymru. Yna caiff yr adroddiadau eu cyhoeddi ar wefan Senedd Cymru.
- 2.2. Yr adroddiad hwn yw'r wythfed adolygiad blynyddol o weithrediad y system apelio ac fe'i paratowyd i fodloni gofynion y Ddeddf. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2020 a 27 Tachwedd 2021.
- 2.3. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion, sy'n ymwneud â'r broses apelio, sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ar yr adolygiad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.


### 3. Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

3.1. Diben y Cynllun yw helpu defnyddwyr i wneud dewis gwybodus ynghylch ble maen nhw'n bwyta allan neu siopa am fwyd a, drwy'r dewisiadau hynny, annog busnesau bwyd i wella eu safonau hylendid. Mae'n gwneud hyn trwy roi gwybodaeth glir i ddefnyddwyr am safonau hylendid busnes bwyd pan gaiff ei arolygu, a hynny ar ffurf sgôr rhwng '0' (Angen Gwella ar Frys) a '5' (Da lawn). Yng Nghymru, caiff y Cynllun ei gynnal mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru.

3.2. Mae [gwybodaeth fanylach am y Cynllun](#) ar gael ar wefan yr ASB.

3.3. Ers i'r Cynllun gael ei gyflwyno yn 2013, mae cydymffurfiaeth wedi gwella'n barhaus. Ym mis Tachwedd 2021, o'r 29,297 o fusnesau â sgôr yng Nghymru, cafodd 28,426 (97 y cant) sgôr o '3' (Boddhaol ar y Cyfan) neu uwch. Cafodd 20,667 (70.5 y cant) o fusnesau y sgôr uchaf o '5' (Da lawn) a dim ond 26 (0.1 y cant) o fusnesau a gafodd y sgôr isaf o '0' (Angen Gwella ar Frys).

3.4. Mae Ffigur 1 isod yn dangos y gwelliant parhaus hwn yn nosbarthiad sgoriau busnesau yng Nghymru o 2013 hyd heddiw.



## 4. Effaith COVID-19 ar y Cynllun ac Adferiad Awdurdodau Lleol

4.1. Drwy gydol pandemig COVID-19, mae'r ASB wedi addasu'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol, gan gydnabod yr heriau a wynebwyd ganddynt wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol mewn perthynas â bwyd tra bu'n rhaid iddynt hefyd flaenoriaethu diogelu cymunedau rhag COVID-19. Mae hyn wedi galluogi awdurdodau lleol i dargedu adnoddau lle mae'r risg uchaf a gohirio ymyriadau wedi'u cynllunio, yn enwedig ar gyfer sefydliadau risg isel. Gan fod y Cynllun wedi'i ategu gan raglenni ymyrraeth wedi'i chynllunio gan awdurdodau lleol, mae'n amlwg bod y dull gweithredu wedi effeithio ar weithrediad y Cynllun.

4.2. Ym mis Mai 2021, cytunodd Bwrdd yr ASB ar [Gynllun Adfer](#) yn nodi canllawiau a chynghor yr ASB i awdurdodau lleol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2021 a 2023/24. Y nod yw sicrhau bod adnoddau awdurdodau lleol yn cael eu targedu lle byddant yn ychwanegu'r gwerth mwyaf wrth ddarparu mesurau diogelu ar gyfer iechyd y cyhoedd a diogelu defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Un o amcanion allweddol y Cynllun Adfer yw galluogi'r Cynllun i symud tuag at weithredu yn y ffordd arferol a diogelu ei hygrededd.

4.3. Lle cyflwynir cyfyngiadau COVID-19 newydd yn genedlaethol neu'n lleol yn ystod y cyfnod adfer, disgwylir i awdurdodau lleol barhau i ddilyn y canllawiau a'r cynghor yn y Cynllun Adfer lle bo hynny'n bosibl ond dylent arfer barn broffesiynol pan nad yw hyn yn ymarferol neu'n ddichonadwy. Dylent hefyd ystyried unrhyw gyfarwyddyd neu ddisgwyliadau a osodir mewn perthynas â mesurau sy'n ofynnol i reoli lledaeniad COVID-19 gan eu hawdurdod lleol eu hunain, lechyd Cyhoeddus Cymru neu Senedd Cymru.

4.4. Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar weithrediad arferol y Cynllun, yn benodol:


- llai o arolygiadau, sydd wedi golygu bod sgoriau busnesau yn aros ar waith yn hirach a bod y dyddiadau arolygu yn hŷn;
- cynnydd yn nifer y busnesau y cyhoeddwyd eu bod yn 'aros am arolygiad' wrth i nifer y busnesau newydd a oedd yn cofrestru gynyddu.

4.5. Mae'r Cynllun Adfer yn darparu fframwaith ar gyfer adfer y system weithredu yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) ar gyfer sefydliadau bwyd newydd a sefydliadau risg uchel a/neu sefydliadau nad ydynt yn cydymffurfio, ac yn cynnig hyblygrwydd i sefydliadau risg llai ar yr un pryd.

4.6. Mae'r Cynllun Adfer yn cydnabod bod awdurdodau lleol yn dechrau o fannau cychwyn gwahanol o ran yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael hyd yma, yr heriau y byddant yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod adfer a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Dylai awdurdodau lleol weithio'n gyflymach, lle y gallant, wrth ail-alinio â'r amlderau ymyrryd a'r darpariaethau eraill a nodir yn y Cod.


4.7. Mae Ffigur 2 isod yn dangos y blaenoriaethau a'r cerrig milltir a nodir yn y Cynllun Adfer o fis Medi 2021 hyd at fis Mawrth 2023.

4.8. Mae'r ASB yn bwriadu cynnal cyfres o arolygon ar bob carreg filltir yn y Cynllun Adfer er mwyn helpu i ddarparu sicrwydd y gall awdurdodau lleol yng Nghymru gynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd yn y dyfodol a darparu cymorth yn ôl yr angen.






4.9. Mae Ffigur 3 isod yn dangos nifer y sefydliadau a gafodd sgôr yng Nghymru bob mis dros y tair blynedd diwethaf.



4.10. Er bod y ffigurau hyn yn dangos cynnydd yn nifer y busnesau sy'n cael sgôr hyd at fis Tachwedd 2021, maent yn adlewyrchu'r effaith y cafodd COVID-19 ar adnoddau timau bwyd. Yn ogystal ag effeithio ar eu gallu i gynnal ymyriadau mewn busnesau bwyd, mae hyn wedi effeithio ar eu gallu i gyflawni'r swyddogaethau gweinyddol sy'n cefnogi'r broses o gyhoeddi sgoriau ar wefan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB). Mae'r cyfyngiadau busnes parhaus yng Nghymru hefyd wedi golygu nad yw llawer o fusnesau yn y sector lletygarwch wedi bod ar agor, er mwyn i swyddogion allu cynnal arolygiadau hylendid bwyd arferol.

4.11. Mae Ffigur 4 isod yn rhoi darlun o nifer y busnesau y cyhoeddwyd eu bod yn 'aros am arolygiad' bob chwarter o fis Rhagfyr 2019 hyd at fis Rhagfyr 2021.



4.12. Mae nifer y busnesau y cyhoeddwyd eu bod yn 'aros am arolygiad' wedi dechrau lleihau wrth i nifer yr arolygiadau gynyddu.

## 5. Adolygu Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru

- 5.1. Mae'r Ddeddf yn cynnwys nifer o fesurau diogelwch ar gyfer busnesau bwyd er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn deg. Maent yn cynnwys yr hawl i weithredwr busnes bwyd apelio yn erbyn sgôr, 'hawl i ymateb', a'r cyfle i ofyn am arolygiad ailsgorio.
- 5.2. Gan gydnabod y rôl barhaus sydd gan awdurdodau lleol yn yr ymateb iechyd cyhoeddus ehangach sydd ei angen i reoli pandemig COVID-19, ac er mwyn lleihau'r baich sydd arnynt, penderfynodd yr ASB y byddai'n cyfyngu'r data a geisiwyd, a fyddai fel arfer yn llywio'r adolygiad o weithrediad y broses apelio a'r adroddiad hwn, i'r hyn sy'n ofynnol yn statudol. O ganlyniad, bydd yr adolygiad blynyddol hwn ond yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â hawl gweithredwr busnes bwyd i apelio yn erbyn sgôr. Ni fydd gwybodaeth am hawl i ymateb neu geisiadau ailsgorio yn cael ei chynnwys
- 5.3. Gall busnesau apelio i'r awdurdod lleol a ddyfarnodd y sgôr yn rhad ac am ddim, ar yr amodau canlynol:
- nid yw'r sgôr yn adlewyrchiad cywir o safonau hylendid bwyd y sefydliad adeg yr arolygiad
  - ni chafodd y meini prawf sgorio eu cymhwyso'n gywir wrth gyfrifo'r sgôr hylendid bwyd.
- 5.4. Mae'n rhaid cyflwyno apêl o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y daeth y sgôr hylendid bwyd i law, ac mae'n rhaid ei chyflwyno'n ysgrifenedig ar y ffurflen benodol.
- 5.5. O dan y Ddeddf, mae'r awdurdod lleol a ddyfarnodd y sgôr hylendid bwyd yn gyfrifol am benderfynu ar apelïadau a rhaid iddo hysbysu gweithredwr y busnes bwyd a'r ASB am y penderfyniad o fewn 21 diwrnod. Rhaid i'r apêl gael ei hystyried gan swyddog awdurdodedig na fu'n ymwneud ag asesu'r sgôr hylendid bwyd sy'n destun apêl.

5.6. Yn ôl yr wybodaeth am apeliadau sgoriau hylendid bwyd ar gyfer y cyfnod 28 Tachwedd 2020 i 27 Tachwedd 2021:

- cyflwynwyd 29 o apeliadau gan weithredwyr busnesau bwyd yng Nghymru mewn 12 o'r 22 awdurdod lleol. Gwrthodwyd tri ohonynt am nad oeddent yn bodloni'r meini prawf apelio, gan arwain at 26 o apeliadau
- penderfynwyd ar 25 ohonynt o fewn y cyfnod gofynnol o 21 diwrnod, gyda phenderfyniad ar yr un arall yn cael ei wneud o fewn pum diwrnod y tu hwnt i'r amserlen statudol

5.7. Ar ôl penderfynu ar y 26 apêl, arhosodd 18 o'r sgoriau yr un fath ac arweiniodd 8 (mewn chwe awdurdod lleol) at newid y sgôr. Ar ôl penderfynu ar eu hapeliadau, o'r 2 fusnes â sgôr o '1' (Angen Gwella yn Sylweddol), cynyddodd un i '2' (Angen Gwella), a'r llall i sgôr o '4' (Da). Cynyddodd y busnes a gafodd sgôr o '2' (Angen Gwella) i '3' (Boddhaol ar y Cyfan), o'r pedwar busnes a gafodd sgôr o '3' (Boddhaol ar y Cyfan), cynyddodd tri i '4' (Da) a gostyngodd un i '2' (Angen Gwella) a chynyddodd un busnes â sgôr o '4' (Da) i '5' (Da lawn).

5.8. Cynhaliwyd llai o arolygiadau yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn o ganlyniad uniongyrchol i bandemig COVID-19 ac mae hyn wedi arwain at ostyngiad yn nifer y sgoriau a gyhoeddwyd ac, yn ei dro, nifer yr apeliadau a ddaeth i law mewn perthynas â'r sgoriau a ddyfarnwyd.

## 6. Cysondeb

- 6.1. Mae'n hanfodol bod swyddogion o fewn awdurdodau lleol ac ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu'r Cynllun yn gyson er mwyn sicrhau chwarae teg i fusnesau bwyd a darparu gwybodaeth ystyrlon i ddefnyddwyr.
- 6.2. Mae'r Grŵp Llywio CSHB Cymru gyfan yn grŵp cyswllt a sefydlwyd i weithio ar y cyd i helpu i weithredu'r Cynllun yn gyson, ei orfodi a'i ddatblygu yn y dyfodol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gredadwy, yn gyfredol ac yn deg. Yn sgil adolygiad o gylch gorchwyl y grŵp ym mis Mehefin 2021, mae wedi symud i gyfarfodydd rhithwir, ddwywaith y flwyddyn, ac mae'r aelodaeth, sy'n cynnwys swyddogion yr ASB a Llywodraeth Cymru, wedi cael ei hymestyn i gynnwys cynrychiolydd o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Cyfarfu'r grŵp ddwywaith yn ystod y cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2020 a 27 Tachwedd 2021.
- 6.3. Yn ystod pandemig COVID-19, dargyfeiriwyd llawer o swyddogion awdurdodau lleol i gyflawni swyddogaethau nad oeddent yn ymwneud â bwyd, megis profi, olrhain a diogelu a chefnogi ysgolion, archfarchnadoedd a chartrefi gofal. Wrth i swyddogion ddychwelyd i arolygiadau bwyd, mae'r ASB wedi cynnig cyfleoedd iddynt loywi eu sgiliau yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Mae hyn wedi cynnwys ariannu digwyddiadau hyfforddi a hwyluso cheched Ymarfer Cysondeb Cenedlaethol (NCE) a lansiwyd ym mis Tachwedd 2021 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
- 6.4. Cynigiodd yr ASB weithdai hyfforddi rhithwir i swyddogion awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am sgorio busnesau bwyd yng Nghymru yn ystod mis Tachwedd 2021. Mewn pum gweithdy bedair awr o hyd, cyflwynwyd hyfforddiant yn seiliedig ar sicrhau cysondeb y CSHB i 178 o swyddogion o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Cafwyd adborth cadarnhaol o'r digwyddiadau hyn, gan gadarnhau manteision cyfleoedd hyfforddi rhithwir yn ystod pandemig COVID-19. Fodd bynnag, teimlai llawer o'r rhai a oedd yn bresennol y gallai fod yn well cyflwyno ymarferion seiliedig ar senarios gan ddefnyddio dulliau digidol mwy rhyngweithiol.

Argymhelliad 1: Bod yr ASB yn ystyried defnyddio dulliau digidol mwy rhyngweithiol wrth gyflwyno gweithgareddau cysondeb.

Argymhelliad 2: Bod yr ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb.

6.5. Ym mis Tachwedd 2021, lansiodd yr ASB y chweched Ymarfer Cysondeb Cenedlaethol (NCE) ar gyfer y CSHB. Cynhaliwyd yr ymarfer ar y we am gyfnod o ddeuddeg wythnos hyd at 11 Chwefror 2022. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn roedd yr ymarfer yn dal i fod ar waith. Bydd yr ASB yn casglu'r canlyniadau ac yn eu rhannu ag awdurdodau lleol, ynghyd â'r sgoriau disgwylidig a'r rhesymau drostynt. Bydd yr ASB hefyd yn paratoi adroddiad cryno a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2022. Cafodd y senario ei gynnwys hefyd yn y gweithdai a ddarparwyd gan yr ASB yng Nghymru drwy gydol mis Tachwedd 2021.

6.6. Mae canllawiau statudol wedi'u llunio i roi cyngor manylach i awdurdodau lleol, i'w cynorthwyo i gymhwyso'r ddeddfwriaeth yn gyson. Cynhaliwyd adolygiad o'r canllawiau yn 2019/20 ond oherwydd bod gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru flaenoriaethau eraill yn ystod pandemig COVID-19, cafwyd oedi wrth eu cymeradwyo. O ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio, mae'r cyhoeddiad wedi'i ohirio a bydd yr ASB yn cynnal adolygiad pellach yn ystod 2022.

## 7. Crynodeb o'r Camau Gweithredu o'r Argymhellion

7.1. Mae'r adran hon yn ystyried sut y mae'r ASB wedi mynd i'r afael ag argymhellion, sy'n ymwneud ag adolygu a gweithredu'r system apelio, a wnaed yn y ddau adroddiad diwethaf. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion sydd heb eu rhoi ar waith.

7.2. Yn [Adroddiad ar y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i Senedd Cymru: Adolygu Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru](#) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020, gwnaeth yr ASB yr argymhellion canlynol sy'n parhau i fod heb eu rhoi ar waith o ganlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol i bandemig COVID-19.

7.3. Argymhelliad 1: Bod yr ASB yn cynnal adolygiad o'r defnydd o'r swyddogaeth Cais i Gyhoeddi Sgôr yn Gynnar ac yn asesu ei effaith ar awdurdodau lleol yng Nghymru.

7.4. Ymateb – Oherwydd effaith pandemig COVID-19, mae'r ASB wedi gohirio'r adolygiad o'r swyddogaeth Cais i Gyhoeddi Sgôr yn Gynnar er mwyn gallu ystyried yr effaith ar awdurdodau lleol yn llawn.

7.5. Argymhelliad 3: Bydd yr ASB, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, yn adolygu ac yn diwygio Canllawiau Statudol y CSHB yn 2020 ar ran Gweinidogion Cymru yn ôl yr angen.

7.6. Ymateb – Mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol, cwblhaodd yr ASB yr adolygiad o'r Canllawiau Statudol yn ystod 2020. Ni chaiff yr adolygiad ei gyhoeddi nes y cynhelir adolygiad pellach i adlewyrchu newidiadau diweddar i gyngor a chanllawiau eraill, er enghraifft Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru).

Argymhelliad 3: Bod yr ASB yn sicrhau yn ystod 2022/23 fod yr holl argymhellion sydd heb eu rhoi ar waith mewn perthynas â gweithredu'r system apelio yng Nghymru yn cael eu cwblhau.

7.7. Yn yr [Adroddiad i Senedd Cymru ar Adolygu'r broses o Weithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Statudol a Gweithrediad y System Apelio yng Nghymru a](#)

[gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021](#) gwnaeth yr ASB yr argymhelliad canlynol mewn perthynas â gweithrediad y system apelio.

7.8. Argymhelliad 4: Mae'r ASB yn darparu unrhyw ddata ychwanegol ar gyfer y cyfnod 28 Tachwedd 2019 i 27 Tachwedd 2020 ar y cyfle cynharaf.

7.9. Ymateb – Oherwydd bod pandemig COVID-19 wedi parhau am weddill 2020 a thrwy gydol 2021, ac i adlewyrchu cyngor yr ASB y dylai awdurdodau lleol ganolbwyntio ar flaenoriaethu gweithgareddau i gefnogi'r Cynllun Adfer, mae'r ASB wedi penderfynu cau'r cam gweithredu sy'n ymwneud â'r argymhelliad hwn. Ni fydd yn gofyn i awdurdodau lleol am ddata ychwanegol ar gyfer y cyfnod 28 Tachwedd 2019 i 27 Tachwedd 2020. Mae'r data a ddarparwyd yn adroddiad Chwefror 2021 yn dal i fod ar gael.



## 8. Casgliadau

8.1. Mae tystiolaeth a gasglwyd i gefnogi'r adolygiadau blynyddol ers cyflwyno'r Cynllun yn 2013 wedi canfod yn gyson fod gweithredwyr busnesau bwyd yn parhau i ddefnyddio'r broses apelio a ddarperir gan y Cynllun. Serch hyn, ar gyfartaledd, dim ond 1% o'r holl fusnesau bwyd â sgôr yng Nghymru sy'n apelio bob blwyddyn. At hyn, yn ôl casgliadau [adolygiad annibynnol o fesurau diogelu busnes](#), a gyhoeddwyd yn 2018, nid oedd tystiolaeth i ddangos bod y broses ei hun yn aneffeithiol nac yn methu â darparu mesurau diogelu i fusnesau nac y byddai angen ailwampio'r broses apelio. Yn achos y gweithredwr busnes bwyd hynny sy'n gwneud apêl, ar gyfartaledd mae tua 16% o'r apelïadau yn arwain at newid sgôr busnes yn dilyn penderfyniad awdurdod lleol. Mae hyn yn awgrymu bod y broses o benderfynu ar apelïadau yn wrthrychol.

Argymhelliad 4: Bod yr ASB yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i ystyried gwerth parhaus adolygiadau blynyddol a darparu adroddiad blynyddol ar weithrediad y broses apelio.

8.2. Mae awdurdodau lleol yn parhau i fod yn hynod ymrwymedig i gyflawni'r Cynllun ac maent yn cyflawni'r broses apelio yn unol â'r gofynion statudol a'r canllawiau, er gwaethaf y pwysau cystadleuol ar adnoddau wrth iddynt ymateb yn lleol i bandemig COVID-19.

8.3. Yn ystod cyfnod heriol i awdurdodau lleol, roedd y nifer o swyddogion a gymerodd ran mewn gweithdai cysondeb a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2021 yn dangos y gwerth parhaus a roddir ar y cymorth a ddarperir ar gyfer gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb wrth roi sgoriau. Mae hyn yn sicrhau cadernid a gwytnwch y Cynllun.

## 9. Argymhellion

9.1. Mae'r ASB yn gwneud yr argymhellion canlynol mewn perthynas â gweithrediad parhaus y system apelio yng Nghymru ar gyfer 2022:

### **Argymhelliad 1:**

Bod yr ASB yn ystyried defnyddio dulliau digidol mwy rhyngweithiol wrth gyflwyno gweithgareddau cysondeb.

### **Argymhelliad 2:**

Bod yr ASB yn parhau i ddarparu cefnogaeth i sicrhau bod pob swyddog awdurdod lleol sy'n sgorio busnesau bwyd o dan y Cynllun yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo cysondeb.

### **Argymhelliad 3:**

Bod yr ASB yn sicrhau yn ystod 2022/23 bod yr holl argymhellion sydd heb eu bodloni yn cael eu cwblhau.

### **Argymhelliad 4:**

Bod yr ASB yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i ystyried gwerth parhaus adolygiadau blynyddol a darparu adroddiad blynyddol ar weithrediad y broses apelio.